# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Hydref 2016

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Rhag-gyfarfod anffurfiol 08.45 - 09.00

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(9.00)

## 3 Papur(au) i'w nodi:

(9.00)

**Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Cadeirydd - 23 Medi 2016 - Awdurdod Cyllid Cymru**

(Tudalen 1)

## 4 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2017-18: Sesiwn dystiolaeth

(09.00-10.00) (Tudalennau 2 - 25)

Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
David Meaden, Cyfrifydd Ariannol
Susan Hudson - Rheolwr Polisi a Chyfathrebu

Papur 1 - Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2017-18

## 5 Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18: Sesiwn dystiolaeth

(10.00-11.00) (Tudalennau 26 - 71)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu
Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid

Papur 2 - Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.00)

## 11.00 - 11.15 Egwyl

## 7 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2017-18: Ystyried y dystiolaeth

(11.15-11.30)

## 8 Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18: Ystyried y dystiolaeth

(11.30-11.45)

## 9 Trosolwg o'r broses gyllidebu

(11.45-12.30)

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref DC/MD/05251/16

23 Medi 2016

**Annwyl Simon**

Rwy'n deall ac yn gwerthfawrogi bod ymrwymiadau eraill yn golygu nad oedd modd ichi ymuno â mi yn fy nigwyddiad amser brecwast yn ddiweddar. Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol petawn yn anfon braslun atoch o'r hyn a drafodwyd, gan eich gwahodd hefyd i gynnig eich barn.

Cynhaliais y digwyddiad i geisio safbwyntiau grŵp eang o randdeiliad ynglŷn â'n camau nesaf o ran datganoli trethi; ac yn arbennig hynt y gwaith o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a'n blaenoriaeth gynnar o benodi cadeirydd, a bwrdd wedi hynny. Fel y gwyddoch, rwy'n bwriadu hysbysebu am gadeirydd yn ddiweddarach yn yr hydref a chyhoeddi enw'r ymgeisydd llwyddiannus yn fuan yn 2017. Roedd y cyfarfod yn un defnyddiol o safbwynt yr amserlen honno.

Yn ystod y digwyddiad buom yn trafod y sgiliau a'r priodweddau y bydd gofyn i'r cadeirydd cyntaf (a'r Bwrdd) feddu arnynt, a chodwyd nifer o bwyntiau diddorol; yn enwedig pwysigrwydd denu ymgeiswyr credadwy sy'n addas i gyd-destun sefydliad newydd yng Nghymru. Trafodwyd hefyd y gwahanol opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau detholiad eang ac amrywiol o ymgeiswyr.

Byddai gen i ddiddordeb mewn clywed unrhyw farn a allai fod gennych ynglŷn â'r priodweddau a'r sgiliau sydd bwysicaf ar gyfer Bwrdd ACC, ac ynglŷn â sut y gallwn sicrhau ein bod yn cael y grŵp mwyaf addas ac amrywiol o ymgeiswyr ag y bo modd.

O ran adrodd ar hynt y gwaith o sefydlu ACC, hoffwn dynnu eich sylw at waith sy'n cael ei wneud gan Archwilydd Cenedlaethol Cymru. Ym mis Medi 2015, ysgrifennodd yr Archwilydd at eich rhagflaenydd, yn nodi ei fwriad i gynnal adolygiad i hynt y gwaith o baratoi at ddatganoli trethi i Gymru erbyn Ebrill 2018. Mae'r Swyddfa Archwilio wedi nodi y byddant yn cyhoeddi eu hadroddiad cyntaf erbyn diwedd mis Tachwedd.

Yn gywir

Mark

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
# Amcangyfrif ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2017/18

**Cyflwyniad i gyfarfod Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**5 Hydref 2016**

## Cynnwys

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 3 |
| 3. | Llywodraethu Corfforaethol | 4 |
| 4. | Perfformiad Ariannol | 4 |
| 5. | Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd | 5 |
| 6. | Diffyg Pensiynau | 8 |
| 7. | Pwysau | 8 |
| 8. | Cynllunio Strategol | 9 |


### Atodiadau


Atodiad A – Amcangyfrifon 2017/18 11

Atodiad B – Twf yn Nifer y Cwynion 12

# 1. Cyflwyniad

1.1 Rwyf yn cyflwyno'r amcangyfrif cyllideb hwn yn unol â'r gofyniad ym mharagraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n amlinellu'r adnoddau y bydd angen eu cael o Gronfa Gyfunol Cymru i gyflawni fy swyddogaethau statudol.

1.2 Dyma'r cyflwyniad cyntaf o amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) i'r Pumed Cynulliad ac mae'n nodi'r adnoddau a geisir ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am ystyried y cyflwyniad amcangyfrifon hwn. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gyfrifol am ystyried gwaith y swyddfa. Yn ogystal â hyn, bydd OGCC yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ôl y gofyn gan y Pwyllgor hwnnw. Mae'r wybodaeth sydd yn y papur hwn yn ymwneud yn benodol â'r materion sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid.

1.3 Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn sefydlu swydd yr Ombwdsmon yn 'gorfforaeth undyn'. Mae'r Ombwdsmon yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy fecanwaith yr Adroddiad Blynyddol, ac fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer yr arian cyhoeddus y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ymddiried i'r Ombwdsmon i gyflawni ei swyddogaethau.

1.4 Mae'r adnoddau a geisir yn y papur hwn yn gyson â nodau ac amcanion fy nghynllun strategol, gan gydnabod hefyd lefel yr ymholiadau a chwynion y mae fy swyddfa'n delio â nhw ar hyn o bryd (ynghyd â'r cynnydd rhagamcanol dros y flwyddyn nesaf ar sail tueddiadau er 2010/11). Rwyf yn trafod y rhain yn ddiweddarach yn y cyflwyniad hwn.

1.5 Y gwariant adnoddau net a geisir ar gyfer 2017/18 yw £4,248,000, gyda gofyniad net am arian parod o £4,460,000. Hwn yw swm yr arian sydd ei angen i reoli llwyth gwaith y swyddfa ar lefelau rhagamcanol 2017/18 ac mae'n cadw fy nghyllideb ar lefel nad yw'n fwy na 0.03% o Floc Cymru.

## 2. Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2.1 Fel Ombwdsmon, mae gennyf ddwy rôl benodol. Y rôl gyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwyf yn annibynnol ar bob corff llywodraethol ac rwyf yn darparu fy ngwasanaeth yn rhad ac am ddim.

2.2 **Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus**

2.2.1 O dan Ddeddf OGCC 2005, rwyf yn ystyried cwynion am gyrff sydd, ar y cyfan, yn rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r cyfrifoldeb dros eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Ymhlith y mathau o gyrff y gallaf ymchwilio iddynt y mae:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yn cynnwys meddygon teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai);
- a Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff y mae'n eu noddi.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal lliniarol sydd wedi'u trefnu neu eu hariannu'n breifat.

2.2.2 Wrth ystyried cwynion, byddaf yn ceisio gweld a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu wedi cael gwasanaeth gwael oherwydd diffyg ar ran darparwr y gwasanaeth. Ystyrir hefyd a yw darparwr y gwasanaeth wedi gweithredu'n unol â'r gyfraith a'i bolisïau ei hun. Os caiff cwyn ei chadarnhau, yna byddaf yn argymell camau priodol i wneud iawn am y diffyg. Y prif lwybr a ddilynir wrth argymell iawn, os yw'n bosibl, yw rhoi'r achwynydd (neu'r person sydd wedi cael cam) yn ôl yn y sefyllfa y byddai ynddi pe na byddai'r broblem wedi codi. Yn ogystal â hyn, os gwelaf dystiolaeth wrth ymchwilio o wendid systemig, yna gwneir argymhellion gyda'r bwriad o'i gwneud yn llai tebygol i bobl eraill brofi problem debyg yn y dyfodol.

2.2.3 Mae Tîm Cynghori ar Gwynion OGCC hefyd yn darparu gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru, sef gwasanaeth annibynnol a diduedd dros y ffôn ac ar y we. Mae'n cynnig cyngor i aelodau o'r cyhoedd ynghylch sut i gwyno am wasanaeth cyhoeddus ac yn cyfeirio eu cŵyn i'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth y maent yn dymuno cwyno amdano, neu i'r ombwdsmon neu gorff annibynnol priodol sy'n delio â chwynion o'r fath.

2.3 **Cwynion y Cod Ymddygiad**

2.3.1 O dan y darpariaethau yn Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2000 a hefyd o dan Orchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, rwyf yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Gallaf ystyried cwynion am ymddygiad aelodau:

- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- cynghorau cymuned
- awdurdodau tân
- awdurdodau parc cenedlaethol
- paneli heddlu a throseddu.

Mae Cod Ymddygiad gan bob un o'r awdurdodau hyn sy'n gosod canllawiau manwl ar yr egwyddorion cydnabyddedig y mae'n rhaid i aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.

## 3. Llywodraethu Corfforaethol

3.1 Oherwydd sefyllfa gyfansoddiadol y gorfforaeth undyn, rhaid i mi gadw cyfrifoldeb ac atebolrwydd dros y gweithgareddau a gyflawnir gan fy swyddfa.

3.2 Gan ystyried sefyllfa gyfansoddiadol y gorfforaeth undyn, rwyf wedi sefydlu Panel Cynghori sy'n darparu her a chymorth i mi fel Ombwdsmon. Yn ogystal â hyn, mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn is-bwyllgor i'r Panel sy'n darparu cymorth penodol i mi mewn perthynas â'm cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae gwaith y ddau fforwm hyn dros y flwyddyn ddiwethaf wedi'i drafod yn fwy manwl yn y Datganiad Llywodraethu yn fy Nghyfrifon Blynyddol ar gyfer 2015/16, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016.

## 4. Perfformiad Ariannol

4.1 Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol a rheolaeth fewnol wedi'u hadolygu'n annibynnol gan Deloitte, archwilwyr mewnol OGCC. Cynlluniwyd gwaith Deloitte ar sail ei asesiad cyffredinol o anghenion. Yn ei adroddiadau, nodwyd y fframwaith boddhaol ar gyfer rheolaeth fewnol yn y sefydliad a gwnaed argymhellion ar gyfer gwella lle roedd angen.


4.2 Yn Adroddiad Blynyddol Deloitte ar Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn 2015/16 nodwyd: "Based on the work we have undertaken during the year we are able to conclude that the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) has a basically sound system of internal control, which should provide **substantial assurance** regarding the achievement of PSOW's objectives." Yn ei adroddiadau, nodwyd y fframwaith boddhaol ar gyfer rheolaeth fewnol yn y sefydliad a gwnaed argymhellion ar gyfer gwella lle roedd angen.

4.3 Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon blynyddol ar gyfer 2015/16 yn yr un modd â phob un o'r blynyddoedd blaenorol.

## 5. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

5.1 Mae OGCC wedi adrodd i'r Pwyllgor Cyllid cyn hyn am y cydymdrech a gafwyd i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol yng nghamau cyntaf y broses trafod cwynion, ynghyd â symleiddio'r cam ymchwilio. Mae'r trefniadau hyn wedi parhau'n hanfodol wrth ddelio â'r nifer cynyddol o ymholiadau a chwynion y mae fy swyddfa'n eu cael.

5.2 Mae'r duedd gynyddol honno'n parhau. Ers dechrau'r degawd (2010/11), mae'r llwyth gwaith eisoes wedi cynyddu 112% (hyd 31 Mawrth 2016). Ar ben hynny, rhagwelir y bydd yn codi i 164% erbyn 31 Mawrth 2017. Mae costau uned wedi gostwng 65% dros yr un cyfnod, fel y dangosir isod:





| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llwyth Gwaith | 2,829 | 3,883 | 4,987 | 5,392 | 5,766 | 5,999 | 6,918 | 7,455 |
| Cost Uned | £1,478 | £930 | £743 | £661 | £630 | £624 | £530 | £512 |


5.3 Dros y cyfnod o chwe blynedd rhwng 2010/11 a 2015/16 roedd gwir nifer yr ymholiadau a chwynion a gafwyd wedi mwy na dyblu a rhagwelir y bydd y llwyth gwaith yn cynyddu yn 2016/17 a 2017/18. Mae crynodeb o hyn yn y tabl isod, ac mae rhagor o fanylion yn Atodiad B.

| | Gwir Nifer 10-11 | Gwir Nifer 11-12 | Gwir Nifer 12-13 | Gwir Nifer 13-14 | Gwir Nifer 14-15 | Gwir Nifer 15-16 | Rhagolwg 16-17 | Amcan-gyfrif 17-18 | % newid 10-11 i 17-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymholiadau | 1,127 | 1,866 | 2,906 | 3,234 | 3,470 | 3,731 | 4,365 | 4,736 | +320 |
| Cwynion am Gyrff Cyhoeddus | 1,425 | 1,605 | 1,790 | 1,932 | 2,065 | 1,992 | 2,191 | 2,301 | +61 |
| Cwynion Cod Ymddygiad | 277 | 412 | 291 | 226 | 231 | 276 | 362 | 418 | +51 |
| **Cyfanswm** | **2,829** | **3,883** | **4,987** | **5,392** | **5,766** | **5,999** | **6,918** | **7,455** | **+164** |

5.4 Mae'r arian a geisir yn yr amcangyfrif hwn yn debyg i hwnnw ar gyfer 2010/11. Mewn termau real (h.y. ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant) mae'n 9% yn is nag yn 2010/11. Mae hyn er gwaethaf y cynnydd yn y llwyth gwaith sydd wedi'i ddangos uchod. Mae manylion y gwariant wedi'u dangos yn y siart isod (mae'r bariau yn y siart yn dangos y gwir wariant, a'r llinell yn dangos beth fyddai'r ffigurau ar ôl eu haddasu ar gyfer chwyddiant). Mewn geiriau eraill, mae hyn yn dangos bod gwir werth (grym gwario) cyllideb OGCC, sydd wedi'i ddangos gan y llinell ddu, wedi gostwng £475,000 yn y blynyddoedd rhwng 2010/11 a 2016/17. Byddai'r cyflwyniad ar gyfer 2017/18 yn ei ostwng i £349,000.



5.5 Nifer o flynyddoedd yn ôl, roedd y swyddfa wedi ymgymryd i gyfyngu ei hadnoddau ariannol i 0.03% o floc Cymru. Mae'n werth nodi, yn ogystal â bod cyllideb y swyddfa yn rhedeg yn is na chwyddiant, fod y gyfran o floc Cymru a gymerir ar gyfer adnoddau OGCC wedi gostwng o 0.026% i 0.024% (yr holl ffigurau mewn £000oedd). Dangosir hyn isod:




| | 10-11 | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb OGCC | £4,166 | £3,854 | £3,853 | £3,942 | £4,023 | £4,063 | £4,090 |
| Bloc Cymru | £15,836,489 | £15,392,400 | £15,489,386 | £15,815,776 | £16,140,891 | £16,417,219 | £16,740,161 |

5.6 Yng nghyd-destun yr arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd ochr yn ochr â'r cynnydd hanesyddol yn nifer yr achosion a maint yr adnoddau ariannol y mae'r swyddfa'n eu derbyn, mae'n glir bod rhaid i mi ystyried o ddifrif beth yw goblygiadau'r tueddiadau hyn ar gyfer y dyfodol. Mae Pwyllgorau Cyllid blaenorol wedi cael eu hysbysu am fesurau arloesol a gyflwynwyd yn y swyddfa, yn cynnwys symleiddio prosesau OGCC ar gyfer trafod cwynion, etc. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn benodol, rydym wedi cydweithio â chyrff a ddewiswyd o fewn yr awdurdodaeth er mwyn gwella eu ffyrdd o drafod cwynion, gyda'r nod hirdymor o ostwng nifer y cwynion yr wyf yn eu cael. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ymdrechu i gynyddu nifer y cwynion sy'n cael eu datrys ar gam cynnar. Er hynny, mae nifer o achosion sydd heb fod yn addas i'w datrys drwy ddull 'cyffyrddiad ysgafn' ac y mae angen ymchwilio iddynt yn drwyadl.

5.7 Rydym hefyd wedi gweithio'n galed i wneud arbedion effeithlonrwydd ar gostau rhedeg o bob math. Er enghraifft, rydym wedi sicrhau gwell telerau ar rent y swyddfa, wedi symud ymlaen â'n prosiect swyddfa ddi-bapur, wedi lleihau costau am ddeunydd cyfeirio cyfreithiol ac wedi sicrhau arbedion cyffredinol ar nifer o wahanol wasanaethau cymorth swyddfa llai.

5.8 Rwyf hefyd wedi parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio â Chomisiynwyr Cymru, lle bo hynny'n briodol. Yn benodol, roedd fy swyddfa wedi arwain ar broses tendro ar y cyd am wasanaethau archwilio mewnol a oedd yn cynnwys swyddfeydd y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Yn ogystal â hyn, rwyf wedi cytuno yn ystod 2016 i ddarparu gwasanaeth cyflogres i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â staff ei swyddfa, ar sail niwtral o ran cost gan arbed arian i'r trethdalwyr.

5.9 Mae'r sefyllfa a eglurwyd uchod wedi cael ei rheoli drwy'r mesurau arloesol a gyflwynwyd a thrwy weithredu ar lefelau staffio is na'r nifer penodedig yn y swyddfa, yn ogystal â gohirio recriwtio. Yn fy marn i, mae fy staff eisoes yn gweithio hyd eithaf eu gallu ac ni allwn barhau i weithredu ar lefel staffio is.

5.10 Mae Pwyllgorau Cyllid blaenorol wedi gofyn i'r Ombwdsmon beidio â newid y meini prawf ar gyfer cymryd cwynion i'w trafod oherwydd y tensiwn rhwng nifer y cwynion a chyfyngiadau ar y gyllideb, heb drafod hynny â'r Pwyllgor yn gyntaf. Yn y cyd-destun hwn y paratowyd yr amcangyfrif hwn. Yn fy marn i, y gwariant adnoddau net o £4,248,000 a geisir ar gyfer 2017/18 (gofyniad net am arian parod o £4,460,000) yw'r lefel o adnoddau sydd ei hangen i alluogi fy swyddfa i barhau i ddarparu gwasanaeth ar y lefel bresennol.

## 6. Diffyg Pensiynau

6.1 Mae rhai o staff OGCC yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae diffyg wedi'i nodi er 2010/11. Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn dangos diffyg o £230,000 ar 31 Mawrth 2016. Mae proses ar waith i ariannu'r diffyg hwn a rhagwelir y bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn 2017/18.

## 7. Pwysau

7.1 Mae cyflogau staff yn gysylltiedig â negodiadau cyflogau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Mae'r gyllideb staff yn dangos cynnydd o 1% mewn cyflogau y cytunwyd arno ar gyfer pob blwyddyn ariannol rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2018 ynghyd â chostau ychwanegol sy'n codi ar ôl gorffen contractio allan Yswiriant Gwladol yn ogystal â newidiadau yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Bydd y gyllideb hon yn darparu arian dros y flwyddyn gyfan ar gyfer 58 o swyddi staff, cyfwerth â 55 o swyddi amser llawn.

7.2 Rwyf yn cael gwasanaeth gan gynghorwyr clinigol sy'n arbenigo mewn gwahanol feysydd yn y proffesiynau iechyd i'm helpu i ystyried achosion iechyd. Mae'r swyddfa'n dibynnu i raddau ar gynghorwyr a gymerir ymlaen drwy drefniant â swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (OSGI), sy'n cael ei ailgodi ar fy swyddfa. Mae'r OSGI wedi rhoi gwybod ei bod yn bosibl na fydd bellach yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn ac, o ganlyniad i hyn, mae'n debygol y bydd fy swyddfa'n mynd i gostau cynyddol i gael cyngor arall. Nid oes darpariaeth ar gyfer hyn yn y cyflwyniad amcangyfrifon hwn.

7.3 Bydd y contract TG yn cael ei aildendro yn ystod 2016/17 ac mae angen parhau i fuddsoddi mewn TG i gael rhagor o arbedion effeithlonrwydd. Mae cyfanswm y gost o £191,000 yn cynnwys arian ychwanegol i symud ymlaen ar gaffael.


7.4 Yn olaf, rwyf yn tynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith nad yw'r amcangyfrif o'm cyllideb yn cynnwys darpariaeth wrth gefn i gwrdd ag eitemau gwariant annisgwyl, fel heriau cyfreithiol i'm penderfyniadau ar waith achosion.

## 8. Cynllunio Strategol ac i'r Dyfodol

8.1 Llynedd, o dan y thema 'Arloesi, Dylanwadu a Gwella', lluniais gynllun strategol tair blynedd newydd y ceir crynodeb ohono ar ffurf diagram ar y dudalen nesaf.

8.2 Fel y dangoswyd eisoes yn y papur hwn, mae'r duedd o ran maint y gwaith achosion yn cynyddu o hyd a bydd y swyddfa'n parhau i ganolbwyntio ar y gwaith craidd o ddarparu gwasanaeth cwynion. Byddwn yn parhau i geisio arloesi er mwyn cyflawni ein nod o ddarparu gwasanaeth effeithiol a chymesur o'r ansawdd gorau. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a geir o'r cwynion sy'n dod i'n sylw yn gwella'r ffordd o drafod cwynion gan ddarparwyr gwasanaethau ac yn cael effaith o ran gwella'r darparu ar wasanaethau cyhoeddus.

8.3 Mae'r Cynllun Strategol yn rhoi sylw hefyd i'r posibilrwydd y ceir Deddf OGCC newydd. Un ffactor pwysig nad yw'n hysbys ar adeg cyflwyno'r amcangyfrif hwn i'r Pwyllgor Cyllid yw bwriad y Cynulliad o ran symud ymlaen â Bil Drafft yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a luniwyd tua diwedd y Pedwerydd Cynulliad. Am y tro, nid wyf wedi gwneud unrhyw ddarpariaeth yn yr amcangyfrifon hyn ar gyfer unrhyw bwerau ychwanegol a allai gael eu rhoi i OGCC. Fodd bynnag, rwyf yn tynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith ei bod yn bosibl y bydd angen i mi gyflwyno Amcangyfrif Atodol os daw'n glir y bydd Deddf newydd yn cael ei gwneud cyn neu yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw.




8.4 Nid oes angen dweud bod fy staff a minnau wedi ymrwymo o hyd i fod yn atebol am y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu ac am yr arian cyhoeddus yr ydym yn ei wario.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Medi 2016**


***************************

## Atodiad A
## Amcangyfrifon 2017/18


| | Gwirioneddol 2015/16 | Cyllideb 2016/17 | Amcangyfrif 2017/18 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **DEL Cyfalaf** | 144 | 25 | 25 |
| **DEL Refeniw Cyllidol** | | | |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 2,498 | 2,788 | 2,934 |
| Costau cysylltiedig â LGPS | 266 | 279 | 292 |
| | **2,764** | **3,067** | **3,226** |
| Adeiladau | 646 | 407 | 416 |
| Systemau cyfrifiadurol a chymorth | 151 | 149 | 191 |
| Costau swyddfa | 161 | 130 | 130 |
| Ffioedd cynghorol a chyfreithiol | 250 | 310 | 294 |
| Cyfathrebu | 73 | 82 | 78 |
| Hyfforddi a recriwtio | 68 | 40 | 30 |
| Teithio a chynhaliaeth | 34 | 29 | 31 |
| Ffi archwilio | 20 | 20 | 20 |
| **Is-gyfanswm** | **4,167** | **4,234** | **4,416** |
| Incwm | 0 | 0 | -1 |
| **Cyfanswm DEL Refeniw Cyllidol** | **4,167** | **4,234** | **4,415** |
| **DEL nad yw'n arian parod** | | | |
| Dibrisiant | 83 | 80 | 80 |
| **DEL Refeniw (**B+C) | **4,250** | **4,314** | **4,495** |
| **Cyfanswm DEL** (A+B+C) | **4,394** | **4,339** | **4,520** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | |
| Symudiad ar LGPS | -266 | -279 | -292 |
| Symudiad darpariaethau | 11 | 30 | 20 |
| **Cyfanswm AME** | **-255** | **-249** | **-272** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | | | |
| A+B+C+D | **4,139** | **4,090** | **4,248** |
| **Adnoddau Gofynnol** | **4,139** | **4,090** | **4,248** |
| Dibrisiant | -88 | -80 | -80 |
| Newid mewn Darpariaethau | -11 | -30 | -20 |
| Defnyddio Darpariaethau | 266 | 279 | 292 |
| Symudiadau eraill mewn Cyfalaf Gweithio | -93 | 20 | 20 |
| **Gofyniad Net am Arian Parod** | **4,218** | **4,279** | **4,460** |

# Atodiad B
# Twf yn nifer y cwynion

O fewn y llwyth achosion cyfan o gwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, mae cwynion am gyrff y GIG wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac o 135% er 2010/11 fel a ganlyn:





Yng nghyd-destun yr holl gwynion am wasanaethau cyhoeddus, mae cwynion iechyd yn 36% o'r llwyth achosion, fel y mae'r siart gyferbyn yn dangos. Mae'r twf yn nifer y cwynion iechyd wedi cael effaith fawr ar waith fy swyddfa, gan, yn gyffredinol, cwynion am gyrff iechyd sy'n galw am y defnydd mwyaf o adnoddau wrth eu hystyried ac wrth ymchwilio iddynt.




Gan ystyried y goblygiadau i'm swyddfa yn y dyfodol, a chymryd data ers dechrau'r degawd hwn, gan gynnwys chwarter cyntaf 2016/17, mae'r llinellau tuedd ar y graff drosodd yn rhoi rhagamcan o faint llwyth achosion y swyddfa ar ddiwedd Mawrth 2018.

# Ymholiadau a Chwynion a Gafwyd ym mhob mis rhwng 2010/11 a diwedd Awst 2016 a rhagamcan hyd Mawrth 2018



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 01656 641150 |
| Ffacs: | 01656 641199 |
| E-bost: | ask@ombudsman-wales.org.uk |
| Dilynwch ni ar Twitter: | @OmbudsmanWales |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Cyllideb ddrafft 2017-18

Medi 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys


01. Cyflwyniad ..... 1
02. Dull gweithredu ar gyfer y gyllideb 2017-21 ..... 2
03. Blaenoriaethau strategol y Comisiwn..... 7
04. Pwysau ar y gyllideb ..... 8
05. Cefnogi Busnes y Cynulliad..... 11
06. Adnoddau'r Cynulliad..... 14
07. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd..... 20
08. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ..... 22
09. Cwmpas y Gyllideb ..... 23



**Agoriad swyddogol y Pumed Cynulliad - 7 Mehefin 2016**
Gwesteion yn y Neuadd wrth i'w Mawrhydi'r Frenhines adael y Senedd.

# 01.Cyflwyniad

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Cynulliad i dalu costau rhedeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chost cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. Y gyllideb hon yw'r gyntaf i adlewyrchu ein strategaeth a'n blaenoriaethau fel Comisiynwyr newydd y Pumed Cynulliad. Yn amlwg, mae cysylltiad clos rhwng strategaeth a chyllideb y Comisiwn. Mae angen inni sicrhau bod digon o arian ar gael i gyflawni uchelgeisiau'r Comisiwn newydd, yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r cyd-destun economaidd ehangach a sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu ein gwasanaethau.

Strategaeth y Comisiwn yn ystod y Pedwerydd Cynulliad oedd gwneud y gorau o'r ffaith mai sefydliad bach yw'r Cynulliad, deall anghenion yr Aelodau'n well a darparu gwasanaethau cymorth wedi'u teilwra'n fwy. Cafodd y Cynulliad bwerau deddfu llawn a chynyddodd llwyth gwaith yr Aelodau o ran maint a chymhlethdod, gan roi pwysau ychwanegol ar amser a chapasiti'r Aelodau. Wrth inni edrych tua'r dyfodol ar y materion a fydd yn wynebu'r Pumed Cynulliad, dau o'r prif ddylanwadau fydd y pwerau codi trethi newydd a chymhwysedd deddfwriaethol estynedig a ddatganolwyd yn sgil Bil Cymru. Mae'r pwysau o ran capasiti ar Gynulliad a chanddo 60 o Aelodau yn dra hysbys ac rydym yn ymwybodol iawn o'r angen yn sgil hynny i'r Comisiwn ddarparu cymorth effeithiol ac effeithlon i'r Aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu rolau.

Mae gan y Bwrdd Taliadau a'r Comisiwn ill dau rôl o ran penderfynu ar y gwasanaethau a'r cymorth ariannol sydd ar gael i'r Aelodau gyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae anghenion yr Aelodau'n ganolog i'r ddau a bydd y Comisiwn yn gweithio'n agos â'r Bwrdd Taliadau i sicrhau bod adnoddau priodol o bob math ar gael i'r Aelodau.

Staff y Comisiwn yw'r elfen fwyaf o gymorth a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad. Mae adnoddau o'r fath yn cynnwys timau clercio pwyllgorau, ymchwilwyr, staff sy'n cefnogi'r prosesau deddfwriaethol, staff cyfieithu a chofnodi seneddol, cynghorwyr cyfreithiol, staff gwasanaethau ymwelwyr ac allgymorth a'r rhai mewn gwasanaethau cymorth gweithredol fel diogelwch, llety, adnoddau dynol, cyllid a TGCh, yn ogystal â chost yr holl nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau a ddefnyddir wrth i'r Cynulliad weithredu o ddydd i ddydd.

I ategu'r cymorth hwn, mae'r Bwrdd Taliadau yn darparu adnoddau ar gyfer cyflogau a thaliadau'r Aelodau, er mwyn i Aelodau a phleidiau gwleidyddol gyflogi eu staff personol eu hunain, rhedeg swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol ac ymgymryd â rhai gweithgareddau ymchwil ac ymgysylltu. Mae'r costau teithio a llety a ddaw i ran yr Aelodau wrth gyflawni eu rolau etholedig hefyd yn cael eu had-dalu gan y Bwrdd.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Comisiwn yn credu bod angen newid y modd yr ydym yn cynhyrchu, yn rheoli ac yn defnyddio gwybodaeth fusnes y Cynulliad yn sylweddol er mwyn i'r Cynulliad gael ei ystyried yn senedd ddigidol o'r radd flaenaf sy'n agored, yn gynhwysol ac yn hawdd ymgysylltu â hi, gan arwain at gyfreithiau a phrosesau craffu gwell. Bydd y Comisiwn yn gweithio i wella'r ffordd y mae pobl yn ymgysylltu â'r Cynulliad a sut y darperir gwasanaethau i'r Aelodau. Bydd llawer o'r newidiadau hyn yn golygu ein bod yn gwneud pethau'n wahanol, yn hytrach nag mewn ffordd fwy costus, ond bydd y broses o drawsnewid y sail ar gyfer darparu cymaint o'n gwasanaethau yn golygu y bydd angen rhywfaint o fuddsoddiad ariannol.

I grynhoi, mae angen i strategaeth y gyllideb ar gyfer y pum mlynedd nesaf fod yn ddigonol i alluogi'r Comisiwn i gyflawni ei nodau strategol newydd. Ar yr un pryd, rhaid iddi ymateb i'r her yn sgil y cynnydd mewn cyfrifoldebau o fewn y cyfyngiadau ar gapasiti sy'n un o nodweddion bod yn ddeddfwrfa leiaf y DU. Bydd angen strategaeth ar gyfer y gyllideb sy'n cynyddu adnoddau cyffredinol y Comisiwn yn gymedrol os bydd y Comisiwn am barhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i Aelodau'r Cynulliad. Yn ei dro, bydd hynny'n galluogi'r Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol ar Lywodraeth Cymru, creu cyfreithiau da i Gymru a chynrychioli pobl Cymru.

# 02.Dull gweithredu ar gyfer y gyllideb 2017-21

Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, gosododd y Comisiwn blaenorol gyllideb amlflwyddyn er mwyn sicrhau bod dyheadau Cymru ar gyfer ei Chynulliad yn cael eu cyflawni. Cafodd hyn ei gyfuno â threfniadau llywodraethu cryf, er mwyn sicrhau bod yr arian a oedd ar gael yn cyd-fynd â chyflawni ei nodau pum mlynedd ac yn cadw ffocws cryf ar sicrhau gwerth am arian cyhoeddus. Cefnogwyd y strategaeth amlflwyddyn hon gan y Pwyllgor Cyllid o'r cychwyn cyntaf a chadwodd y Comisiwn ati bob blwyddyn. Er mwyn darparu'r un lefel o dryloywder a chynllunio effeithiol, rydym yn mabwysiadu'r un dull gweithredu ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cynlluniau gwariant arfaethedig ar gyfer 2017-18 yn ogystal â'n cynlluniau dangosol a'n gofynion ariannol hyd ddiwedd y Pumed Cynulliad. Gallai'r rhain newid wrth inni ymateb i'r heriau sy'n dod i'r amlwg dros y pedair blynedd nesaf ond, ar sail ein hasesiadau presennol, rydym yn ystyried eu bod wedi'u gosod ar lefel sy'n deg ac yn ddarbodus.

Mae'r gyllideb yn ei chyfanrwydd yn darparu ar gyfer:

– y gwariant sydd dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn;

– cyllideb ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau;

– y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau o dan y pennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol Trysorlys Ei Mawrhydi.

Mae'r gyllideb wedi cael ei pharatoi ar sail cynnydd mewn chwyddiant yn ogystal ag 1% ychwanegol ar gyfer 2017-18 a 2018-19, ac yna 0.8% yn is na chwyddiant yn 2019-20 a 2020-21 (h.y. yn unol â'r newidiadau a ragwelir i Floc Cymru). Mae'r gyllideb wedi cael ei pharatoi ar y rhagdybiaeth y bydd y Cynulliad yn parhau gyda 60 o Aelodau. Os, yn ystod tymor y Cynulliad, y daw i'r amlwg bod angen i'r Comisiwn gynllunio ar gyfer cynnydd ym maint y Cynulliad, yna byddai angen gwneud darpariaethau newydd o ran y gyllideb.

Dangosir crynodeb lefel uchel ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn Nhabl 1 isod, ynghyd â'r gyllideb ar gyfer 2016-17 er cymhariaeth:

| **Tabl 1** | **2016-17 £000** | **2017-18 £000** | **2018-19 £000** | **2019-20 £000** | **2020-21 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| *Cyllideb Weithredu* | | | | | |
| **Adnoddau Staff** | £20,391 | £21,349 | £22,467 | £22,795 | £23,071 |
| **Costau nad ydynt yn ymwneud â staff** | £13,079 | £13,064 | £13,020 | £13,077 | £13,226 |
| **Is-gyfanswm** | **£33,470** | **£34,413** | **£35,487** | **£35,872** | **£36,297** |
| | | | | | |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau** | **£15,468** | **£15,532** | **£15,816** | **£16,102** | **£16,394** |
| | | | | | |
| **Cyllidebau wedi'u neilltuo a rhai nad ydynt yn arian parod** | | | | | |
| Dibrisiad | £3,000 | £2,600 | £2,400 | £2,200 | £2,200 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | £1,500 | £1,200 | £1,200 | £1,200 | £1,200 |
| Gwariant yn Ymwneud ag Etholiad | £2,500 | £0 | £0 | £0 | £500 |
| **Is-gyfanswm** | **£7,000** | **£3,800** | **£3,600** | **£3,400** | **£3,900** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | **£55,938** | **£53,745** | **£54,903** | **£55,374** | **£56,591** |

Mae cyfran fawr o gyllideb weithredol y Comisiwn yn cwmpasu costau staffio. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, datblygodd ein staff er mwyn darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf i'r Aelodau. Cynyddwyd ein capasiti er mwyn ymateb i'r galwadau ar y busnes ac rydym wedi cyflwyno sgiliau ychwanegol lle bo angen i ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Mae llawer o waith wedi'i wneud eisoes i fapio'r anghenion staffio tebygol ar gyfer y Pumed Cynulliad ac yn sgil strwythur newydd ar gyfer y Pwyllgorau, mae'r strwythurau staff a chapasiti yn cael eu hadolygu.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2017-18 yn darparu ar gyfer 446 o swyddi. Caiff lefelau staffio eu hadolygu drwy ymarfer cynllunio capasiti blynyddol sy'n cysylltu â chynlluniau gwasanaeth, gan nodi anghenion staffio a sicrhau bod digon o amser i gyflwyno'r sgiliau gofynnol. Y dybiaeth yn ein gwaith cynllunio ar gyfer y gyllideb yw y bydd twf cymedrol yn nifer y staff yn parhau yn ystod y Pumed Cynulliad gan y bydd angen sgiliau ac arbenigedd ychwanegol yn sgil y cynnydd yn llwyth gwaith yr Aelodau.

Ymysg y meysydd allweddol lle rydym yn disgwyl gweld cynnydd mewn capasiti mae:

– Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad e.e. cymorth ar gyfer Pwyllgorau, Cyfathrebu, cyfryngau digidol a Deddfwriaeth;

– Cyfieithu a Chofnodi wrth i ni ddarparu cymorth pellach ar gyfer cynnydd mewn gweithio'n ddwyieithog.

– Diogelwch - mewn ymateb i gynnydd yn y bygythiad rhyngwladol.

## Gofalu am ein harian

Er mwyn rheoli'r adnoddau sydd ar gael inni, mae angen i'r Comisiwn gael gwybodaeth ariannol amserol, cywir a pherthnasol sy'n cael ei pharatoi drwy roi ystyriaeth i rwymedigaethau statudol y Comisiwn a'i ymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw.

Mae ein rheolaeth a'n perfformiad ariannol yn adlewyrchu ethos y Comisiwn o welliant parhaus. Rydym wedi gwneud gwelliannau pellach o ran adroddiadau a rhagolygon ariannol er mwyn darparu'r hyblygrwydd i wneud y defnydd gorau o'r gyllideb sydd ar gael inni.

Rydym wedi cryfhau ymhellach reolaeth ac adroddiadau ariannol, gan gynyddu capasiti, sgiliau a gwytnwch y Tîm Cyllid yn ogystal â lleihau'r amser a gymerir i ddarparu gwybodaeth reoli, a gwella prosesau cysoni.

Mae gan y Comisiwn raglen archwilio mewnol hynod effeithiol sy'n cael ei rhoi ar waith ar draws y sefydliad ac mae'n ategu'r gofynion archwilio statudol. Arweiniodd y gwaith a wnaed rhwng y Tîm Cyllid a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2015-16 i fynd i'r afael â gwendidau posibl at archwiliad llwyddiannus iawn o'r cyfrifon diwedd blwyddyn. Bydd y berthynas hon yn parhau i fod yn werthfawr er mwyn amlygu unrhyw feysydd i wella arnynt yn y broses gyfrifon a pharhau i ddangos gwerth am arian.

Yn ogystal, ceir Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg annibynnol sy'n cynnwys unigolion profiadol iawn sydd â phrofiad yn y sector cyhoeddus a phreifat. Mae'r pwyllgor yn cymryd diddordeb brwd yn y modd y caiff y Comisiwn ei reoli ac mae'n frwdfrydig am ei waith ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Mae ymgysylltu â hwy yn darparu her a sicrwydd parhaus ynghylch ein gwaith gwella.

Bydd y broses archwilio mewnol yn parhau yn ystod y Pumed Cynulliad ac yn rhoi cyfle i adolygu ein gwasanaethau presennol gan ddarparu argymhellion ar gyfer gwella lle bo angen.

Mae'r Comisiwn yn adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol bob tymor. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad bu'r dangosyddion hyn o gymorth i hoelio sylw ac ysgogi gwelliannau i wasanaethau. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu diweddaru ar gyfer y Pumed Cynulliad i adlewyrchu blaenoriaethau'r Comisiwn newydd.




**Agoriad swyddogol y Pumed Cynulliad – 7 Mehefin 2016**
Rhesi o aelodau o'r lluoedd arfog ar y stryd y tu allan i'r Senedd.

# Pennu'r cyfeiriad

Un o'n tasgau cyntaf fel Comisiwn newydd oedd cytuno ar ein strategaeth newydd. Amlinellir ein pwrpas cyffredinol a'n nodau strategol isod.

**Ein diben**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i hwyluso ei lwyddiant yn yr hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch, cynhwysol a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

**Ein nodau strategol**

- Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf.
- Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad.
- Defnyddio adnoddau'n ddoeth.



# 03.Blaenoriaethau strategol y Comisiwn

Mae'r nodau strategol yn gosod y fframwaith ar gyfer set uchelgeisiol o flaenoriaethau, gan adeiladu ar y buddsoddiad a'r momentwm sydd wedi'i gyflawni yn y Pedwerydd Cynulliad, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau yn y sefyllfa gyfansoddiadol a'r angen parhaus am ymgysylltiad cryfach. Ar gyfer pob nod strategol, nod y Comisiwn yw gosod a chynnal safonau uchel fel arweinydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn ystod cyfnod o graffu manylach gan y cyhoedd, a gwella ein henw da yn rhyngwladol fel sefydliad seneddol agored ac effeithiol o'r radd flaenaf.

Un o'r themâu allweddol yn yr holl flaenoriaethau hyn yw canolbwyntio ar greu capasiti i sicrhau llwyddiant tymor hwy y sefydliad. Mae hyn yn berthnasol i'r:

- Cynulliad a'r Comisiwn: drwy sicrhau bod y fframwaith cyfansoddiadol a gweithdrefnol cywir ar waith;
- Aelodau: drwy lunio ein gwasanaethau a'n harlwy datblygiad proffesiynol i gyd-fynd â'u hanghenion;
- staff: sicrhau bod ein pobl yn cael eu paratoi'n dda, eu bod yn dod o'r gronfa dalent ehangaf posibl, yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau busnes, a bod gennym yr hyblygrwydd i ymateb i anghenion sy'n newid;
- diwylliant hyblyg: chwilio'n barhaus am gyfleoedd i bawb greu gwerth drwy weithio mewn ffordd wahanol, gan wneud y defnydd gorau o alluoedd technolegol sy'n datblygu, a chroesawu newid;
- gwella gwerth y cyfleoedd ymgysylltu a gynigir gan ystâd y Cynulliad, yn enwedig y Senedd.

Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad newidiwyd strwythurau'r Pwyllgorau, y ffordd mae eu Cadeiryddion yn cael eu hethol ac estynwyd wythnos fusnes ffurfiol y Cynulliad i ddarparu mwy o amser ar gyfer gwaith craffu yn y pwyllgorau a'r cyfarfod llawn. Mae angen i ni ymestyn ein cymorth staffio i ymateb i'r newid hwn yn y galw ac i fynd i'r afael ag anghenion sy'n dod i'r amlwg yn y sefydliad.

Bydd buddsoddi adnoddau ychwanegol i gefnogi newid a meithrin ein gallu yn talu ar ei ganfed yn y tymor hwy. Ymysg y meysydd penodol lle y gwelwn yr angen am fuddsoddiad yn y dyfodol mae:

- newid gwasanaethau digidol y Comisiwn a ddarperir i'r Aelodau a'r cyhoedd yn sylweddol, gan gynnwys gwella gwasanaethau fel Senedd TV;
- cryfhau'r strategaeth ymgysylltu ag ieuenctid er mwyn buddsoddi yn nyfodol democratiaeth Cymru;
- creu archif gydlynol sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar gyfer cadw cofnodion y Cynulliad yn yr hirdymor;
- y rhaglen fuddsoddi 10 mlynedd ar gyfer Ystadau a'r Map Lleihau Ynni;
- y posibilrwydd o brynu Tŷ Hywel os bydd y cyfle'n codi, pe dangosid y byddai hyn yn arbed swm sylweddol o arian inni yn y tymor hwy.

# 04.Pwysau ar y gyllideb

Mae heriau'r Pumed Cynulliad yn debygol o ddod hyd yn oed yn fwy cymhleth a'i gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fod ar ei orau o ran cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu gwaith. Gan edrych i'r dyfodol, mae strategaeth y Comisiwn ar gyfer y gyllideb yn ystyried y cyd-destun cyfansoddiadol newidiol, gan gynnwys canlyniad refferendwm yr UE. Bydd sbardunau a dylanwadau allanol eraill yn llywio gwasanaethau'r Comisiwn. Mae'r rhai allweddol a ragwelir yn cael eu crynhoi yma.

**Newid cyfansoddiadol**

Bydd y Cynulliad o dan y chwyddwydr wrth i bwerau codi trethi newydd gael eu defnyddio (gan gynnwys, o bosibl, pwerau treth incwm). Bydd pwerau newydd eraill yn cael eu datganoli drwy Fil Cymru. Mae sicrhau bod gwasanaethau cymorth yr Aelodau a'r Comisiwn yn barod i arfer y pwerau newydd hyn yn faes y gall fod angen buddsoddiad pellach ynddo ar raddfa fach, er enghraifft, i ymdrin ag unrhyw waith ychwanegol neu gyflwyno arbenigedd.

Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid cynyddu maint y Cynulliad yn 2021, a sut y dylid gwneud hynny, yn fater i'r Cynulliad ei ystyried os caiff Bil Cymru ei gytuno. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar flaenoriaethau buddsoddi'r Comisiwn a byddai angen cryn dipyn o flaengynllunio ac ailystyried gwasanaethau'r Comisiwn er mwyn darparu cymorth i Gynulliad mwy o faint.

**Goblygiadau canlyniad Refferendwm yr UE i Gymru a gwaith y Cynulliad.**

Mae gan y Cynulliad rôl o ran hyrwyddo buddiannau Cymru ymhlith sefydliadau'r UE. Mae ganddo hefyd rôl o ran dylanwadu'n anuniongyrchol ar safbwynt Llywodraeth y DU ac o ran craffu ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r UE.

Mae'n debygol y bydd effaith, yn dilyn canlyniad y refferendwm, ar lwyth gwaith yr Aelodau a'r Pwyllgorau yn y tymor byr a'r tymor hwy. Efallai y bydd rhai meysydd gwaith yn lleihau, neu efallai y rhoddir blaenoriaeth is iddynt, megis gwaith i gefnogi gweithgaredd y Cynulliad mewn perthynas â Phwyllgor y Rhanbarthau a CALRE (Cynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop). Fodd bynnag, ochr yn ochr â hyn, mae'n debygol y bydd llawer mwy o bwyslais ar waith rhyng-seneddol o fewn y DU a meysydd polisi allweddol lle mae cyfreithiau yr UE yn cael eu cymhwyso i feysydd datganoledig, ac felly yn debygol o gael eu hysgwyddo gan y Cynulliad, yn hytrach na San Steffan.

Yn ogystal, bydd angen ymgysylltu mwy ar faterion cyfansoddiadol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol i sicrhau bod buddiannau'r Cynulliad yn cael eu cynrychioli. O ystyried pwysigrwydd cynnwys y seneddau datganoledig a chael trosolwg o gysylltiadau rhynglywodraethol ar y mater hwn, pa bynnag brosesau/strwythurau a gaiff eu rhoi ar waith ar gyfer trafodaethau rhynglywodraethol, bydd yn ofynnol cael trefniadau tebyg ar gyfer deddfwrfeydd.

Mae cryfderau craidd y system bwyllgorau yn cynnwys gwaith trawsbleidiol, arbenigedd ar bolisi ac ymgysylltu â'r etholwyr. Mae pob un o'r materion hyn wedi cael eu codi yn y dadleuon gwleidyddol a'r sylw yn y cyfryngau ar ôl y refferendwm. Mae’r potensial i bwyllgorau gyfuno'r tri mewn ffyrdd arloesol, yn ogystal ag adeiladu ar arferion gorau o'r Pedwerydd Cynulliad, ac ymateb i'r heriau sy'n codi o'r bleidlais yn sylweddol.

### Capasiti - cynorthwyo'r Aelodau i ymateb i ofynion busnes

Mae'r pwysau ar yr Aelodau a gwasanaethau'r Comisiwn yn debygol o gynyddu yn ystod y Pumed Cynulliad. Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'r pwerau newydd a ddatganolwyd yn Neddf Cymru 2014 a'r rhai a ragwelir yn sgil Bil Cymru yn debygol o gynyddu llwyth gwaith yr Aelodau. Bydd hefyd angen craffu'n fanylach byth ar yr heriau polisi cyhoeddus sy'n wynebu Cymru, sydd wedi gwaethygu yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol.

Yn wyneb y pwysau parhaus ar Gynulliad â 60 o Aelodau, bydd y Comisiwn yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod ei gymorth yn canolbwyntio ar yr Aelodau.

### Byd digidol sy'n newid, ymgysylltu â'r cyhoedd a'r galw am fwy o dryloywder

Mae'r ffordd y mae pobl yn ymgysylltu â'r amgylchedd gwleidyddol yn newid, gan gynnwys galwadau am fwy o dryloywder a hygyrchedd i wybodaeth am Aelodau a'u gwaith. Mae hyn yn sbardun ar gyfer gwella gwasanaethau megis senedd.tv a chreu archif gydlynol o gofnodion y Cynulliad, er mwyn diogelu a rheoli'r cofnodion hynny er budd y cyhoedd.

Mae cyfle i adeiladu ar y sylfeini rhagorol a osodwyd yn y Pedwerydd Cynulliad o ran allgymorth ac ymgysylltu ag ieuenctid. Bydd y Comisiwn yn ystyried y dadleuon o blaid Cynulliad Ieuenctid ffurfiol i ategu'r cynnydd yn ei waith ymgysylltu ag ieuenctid.

Mae'r sylw a roddir i fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau yng Nghymru yn debygol o barhau i fod yn wan. Bydd parhau i gefnogi'r cyfryngau i hwyluso rhoi sylw i waith y Cynulliad yn y cyfryngau cenedlaethol a lleol yng Nghymru yn hollbwysig. Efallai hefyd y bydd cyfle i wella perthynas y Cynulliad â'r cyfryngau yn y DU er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth a'u hawydd am newyddion o'r Cynulliad a'u helpu i wneud cysylltiadau rhwng materion sy'n berthnasol i'r DU gyfan a'r persbectif Cymreig.

Mae angen newid y modd yr ydym yn cynhyrchu, yn rheoli ac yn defnyddio gwybodaeth fusnes y Cynulliad yn sylweddol os yw'r Comisiwn yn dymuno i'r Cynulliad gael ei ystyried yn senedd ddigidol o'r radd flaenaf sy'n agored, yn gynhwysol ac yn hawdd ymgysylltu â hi, gan arwain at gyfreithiau a phrosesau craffu gwell.

### Newid enw'r Cynulliad

Bydd Bil Cymru, sydd ar ei daith drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad newid ei enw ei hun, ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Cynulliad wedi bod yn glir ei farn y dylid newid ei enw i adlewyrchu'n well ei gyfrifoldebau a'i rôl bresennol yng nghyfansoddiad Cymru. Bydd y Comisiwn yn ystyried goblygiadau newid o'r fath a'r ffordd orau o'i roi ar waith.

# **BUSNES Y CYNULLIAD** 2015 – 2016

Yn ystod 2015-16, bu Aelodau'r Cynulliad yn cynrychioli eu hetholwyr ac yn craffu ar bolisi, deddfwriaeth a gwariant y Llywodraeth mewn cyfarfodydd pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn yn wythnosol.

**66** CYFARFOD LLAWN

**20** CWESTIWN BRYS

**8** DADL AELODAU UNIGOL

**10** BIL YN CAEL CYDSYNIAD BRENHINOL

**286** CYFARFOD PWYLLGOR

**82** ADRODDIAD PWYLLGOR

# 05.Cefnogi Busnes y Cynulliad

Mae'r Cynulliad wedi sefydlu system bwyllgorau gyda dau bwyllgor polisi a deddfwriaeth yn fwy nag yn y Pedwerydd Cynulliad.  Mae hefyd wedi cytuno ar amserlen fusnes ffurfiol a fydd yn caniatáu i fwy o weithgaredd pwyllgor gael ei gynnal.

Bydd angen i'r Comisiwn fuddsoddi er mwyn sicrhau bod pob pwyllgor:

– yn cael mynediad i'r arbenigedd polisi sydd ei angen arno, yn fewnol ac yn allanol;

– yn gallu mynd ar drywydd ffyrdd arloesol a chynhwysol o ymgysylltu â phobl Cymru;

– yn codi proffil ei waith;

– yn cael y gwasanaethau gweinyddol, gan gynnwys cyfieithu, cyfieithu ar y pryd a chofnodi, sydd ei angen arno i ddiwallu ei anghenion.

Mae'r Comisiwn yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r dull hyblyg o ddarparu adnoddau ar gyfer gwaith craffu deddfwriaethol a sefydlwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.  Bydd hyn yn cynnwys asesu anghenion o ran adnoddau yn rheolaidd ac ymateb pan fo'n briodol i gyfnodau pan fydd llwythi gwaith deddfwriaethol y Cynulliad yn drwm.  Byddwn yn darparu ystod lawn o gymorth i ddatblygu unrhyw Aelod, pwyllgor neu Filiau'r Comisiwn. Byddwn hefyd yn darparu cefnogaeth i graffu ar unrhyw Filiau o'r fath, yn ogystal â chraffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Comisiwn yn ymchwilio'n ofalus, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, i'r potensial ar gyfer unrhyw angen am adnoddau sy'n deillio o adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru.  Mae'r Comisiwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer diwedd cyfnod y contract presennol ar gyfer y feddalwedd deddfwriaeth a ddefnyddir gan y ddau sefydliad i ddrafftio a phrosesu gwelliannau i Filiau.

Mae'r strwythur staffio sy'n cefnogi pwyllgorau yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r rhaglen newydd ar gyfer busnes y Pwyllgorau, ond bydd angen ei fonitro wrth i'r Pumed Cynulliad fynd rhagdddo er mwyn ymateb i lwythi gwaith y pwyllgorau unigol.  I gefnogi eu gwaith ymhellach, mae'r Aelodau a'u staff yn gwneud defnydd rhagorol o'r Gwasanaeth Ymchwil i ateb eu ceisiadau cyfrinachol am wybodaeth i gefnogi Busnes y Cynulliad a gwaith yn eu hetholaethau. Rydym wedi cydnabod y galw cynyddol gan yr Aelodau i wybodaeth gael ei chyflwyno mewn fformatau mwy gweledol a hygyrch gan ddefnyddio meddalwedd mapio a ffeithluniau.

Bydd yr heriau cyfansoddiadol a gyflwynir gan Fil Cymru a'r penderfyniad y dylai'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd yn creu galwadau penodol am gyngor a chymorth cyfreithiol a gweithdrefnol ar gyfer y Llywydd, y Comisiwn, y pwyllgorau a'r Aelodau.  Rydym yn rhagweld yr angen am fuddsoddiad penodol wedi'i dargedu yn y meysydd arbenigedd hyn, ond nid yw gwir faint y gwaith dan sylw yn glir eto.

## Datblygiad Proffesiynol i'r Aelodau

Dechrau'r Pumed Cynulliad oedd y tro cyntaf inni allu darparu rhaglen gynefinio gynhwysfawr i Aelodau newydd a roddodd gyflwyniad iddynt i'r Cynulliad a'r offer angenrheidiol i ddechrau ar eu gwaith ar unwaith.  Erbyn hyn mae'r Aelodau'n cael cymorth unigol drwy hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â'r rolau y byddant yn ymgymryd â hwy.  Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu cymorth arloesol, yn seiliedig ar anghenion. Bydd cyflawni'r rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth yn adeiladu ar y profiad yn y Cynulliad diwethaf yn ogystal ag ymgorffori cyfleoedd newydd yn seiliedig ar adborth gan yr Aelodau presennol. Bydd yn canolbwyntio

ar ddarparu cyngor amserol a chymorth wedi'i deilwra sy'n cyflawni blaenoriaethau'r sefydliad ac yn diwallu anghenion unigolion.

Bydd y rhaglen DPP yn cynnwys cymysgedd o gyfleoedd dysgu, gan gynnwys sesiynau hyfforddi, deunyddiau ar-lein a deunyddiau ysgrifenedig, sesiynau briffio a hyfforddi sy'n adlewyrchu ystod o gyfrifoldebau'r Aelodau a'u Staff Cymorth. Bydd Aelodau unigol yn cael cymorth o ran eu cyfrifoldebau dros redeg swyddfeydd a rheoli staff ochr yn ochr â busnes mwy ffurfiol y Cynulliad. Bydd meysydd gweithgaredd newydd yn cynnwys cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o oblygiadau'r penderfyniad i adael yr UE a pharatoi ar gyfer y newidiadau cyfansoddiadol a fydd yn dod i rym yn y Cynulliad hwn.

Bydd y Pwyllgorau a'u Cadeiryddion yn parhau i gael mynediad i raglen gynhwysfawr o gymorth y gellir ei deilwra i weddu i'w hanghenion ac i gyd-fynd â'u blaenoriaethau. Bydd y rhaglen gymorth hyblyg hon yn cynnwys hyfforddiant i Gadeiryddion, sgiliau casglu tystiolaeth a chwestiynu, a chraffu ar ddeddfwriaeth.

Un o'r meysydd lle’r ydym yn rhagweld y cynnydd mwyaf yn y galw yw cymorth iaith.  Rydym yn cynnig gwahanol ffyrdd o ddarparu gwersi Cymraeg ac eisoes wedi trefnu i Aelodau gael gwersi sy'n cyd-fynd â'u hanghenion dysgu penodol.

Bydd pecynnau DPP ar gael ar gyfer Staff Cymorth unigol Aelodau'r Cynulliad, i weddu i'w rolau gwahanol a'r ffordd y bydd yr Aelodau'n dewis strwythuro'u swyddfeydd. Bydd y ddarpariaeth DPP bresennol ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn parhau, gyda ffocws ychwanegol ar gefnogi gweithwyr achos a staff mewn swyddfeydd etholaeth sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r cyhoedd. Bydd y mathau o hyfforddiant a gynigir i Staff Cymorth yn cynnwys: hyfforddiant cyfryngau, dysgu iaith, gwaith achos, ymdrin ag etholwyr, ysgrifennu areithiau a'r broses ddeddfwriaethol a diwygio deddfwriaeth.

## Gweithio'n Ddwyieithog

Mae gwaith ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad yn mynd rhagddo.  Fel rhan o'r broses, mae'n ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad ymgynghori ar ddrafft o'r Cynllun ac i osod y Cynllun terfynol gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo.  Bydd y cynllun diwygiedig yn canolbwyntio ar wella ymhellach y ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog a'r gallu i ddarparu gwasanaeth pwrpasol ac ymatebol.

Mae'r cynnydd yn nifer Aelodau'r Cynulliad sy'n siarad Cymraeg ac yn nifer Aelodau'r Cynulliad sy'n dysgu Cymraeg, gan gynnwys ethol deiliaid swyddi sy'n siarad Cymraeg yn debygol o gynyddu ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ar lefelau ffurfiol ac anffurfiol

Mae Tîm Sgiliau Iaith wedi cael ei sefydlu i ddarparu addysg a chymorth hyblyg a phwrpasol ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Bydd y tîm yn gweithio ar becyn cymorth dwyieithrwydd a fydd yn cynorthwyo staff y Comisiwn i ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt i weithio ar lefel sy'n briodol iddynt hwy. Bydd hyn yn cynnwys y defnydd o dechnoleg megis cyfieithu peirianyddol ac adnoddau ar-lein a fydd, yn yr hirdymor, yn gwella hyder Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth, a staff y Comisiwn i weithio yn yr iaith o'u dewis, ac yn lleihau dibyniaeth ar gyfieithu i hwyluso gweithio'n ddwyieithog.

Bydd contract cyfieithu yn ôl y gofyn newydd ar waith erbyn dechrau 2017; bydd y contract yn hwyluso ymateb hyblyg i unrhyw ofynion ar gyfer cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd, gan ymgorffori'r defnydd o dechnoleg i sicrhau gwerth am arian.

## Cofnod y Trafodion

O ddechrau'r Pumed Cynulliad, mae'r Cofnod Drafft yn ymddangos ar-lein awr ar ôl i'r Cyfarfod Llawn ddechrau. Mae hwn yn wasanaeth newydd, gan adeiladu ar yr un blaenorol, a oedd yn gyhoeddiad mewnol yn unig. Caiff hyn ei gyhoeddi ar Twitter.

Fel rhan o'n darpariaeth newydd i Aelodau yn y Pumed Cynulliad, caiff trawsgrifiadau o gyfarfodydd pwyllgorau eu hanfon dros yr e-bost yn uniongyrchol at aelodau'r pwyllgor cyn gynted ag y byddant wedi'u cwblhau, er mwyn hwyluso craffu ar y cyfle cyntaf posibl.

Rydym yn chwilio am ateb trawsgrifio a chyhoeddi newydd sy'n integreiddio i brosesau Busnes eraill y Cynulliad er mwyn gwneud y broses gynhyrchu'n fwy effeithlon, a'n galluogi i neilltuo mwy o adnoddau i gyhoeddi trawsgrifiadau'n gyflymach. Y nod yw cyhoeddi'r holl drawsgrifiadau mewn fformat a fydd yn hawdd ei chwilio yn ôl Aelod, lleoliad, pwnc, ac ati, i gefnogi ein democratiaeth seneddol a'n gweledigaeth ar gyfer y Cofnod sef:

> "Mae ein cofnod Seneddol swyddogol dwyieithog yn addas at y diben mewn byd digidol sy'n esblygu, mae modd ei ailddefnyddio, ac mae ar gael yn gynt ac yn haws. Mae cofnodi trafodion y Cynulliad yn rhan annatod o'n strategaeth gyfathrebu i wneud y trafodion yn fwy tryloyw fel bod pobl Cymru yn deall beth sy'n cael ei drafod a'i benderfynu gan y Cynulliad."

## Ymgysylltu â phobl Cymru

Mae'r Comisiwn yn ymgysylltu â phobl Cymru mewn nifer o ffyrdd. Mae'r Senedd a'r Pierhead yn atyniadau arwyddocaol ynddynt eu hunain ac rydym yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ar yr ystad sy'n rhoi cyfleoedd i deuluoedd ddysgu mwy am y Cynulliad. Yn gynyddol, mae'r Senedd yn cael ei defnyddio fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau mawr o bwysigrwydd cenedlaethol ac rydym yn manteisio ar y cyfleoedd megis dathlu 10 mlynedd ers agor yr adeilad i arddangos y sefydliad. Caiff y Cynulliad ei gynrychioli ym mhob un o'r sioeau cenedlaethol o bwys a thrwy ein rhaglen "@Senedd", rydym yn mynd â gwaith y Cynulliad yn uniongyrchol i rannau o Gymru ar wahân i Gaerdydd.

Mae'r pwyslais a roddwn ar ymgysylltu ac allgymorth fel rhan annatod o waith y pwyllgorau yn torri tir newydd yn y byd seneddol. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o gynnwys y cyhoedd yn uniongyrchol yng ngwaith y pwyllgorau, dylanwadu ar eu rhaglen waith, cynhyrchu'r dystiolaeth a gânt a chyfleu eu gwaith a'u casgliadau. Bydd parhau â'r datblygiadau hyn yn hollbwysig nid yn unig i effeithiolrwydd y system bwyllgorau ond hefyd i wella lefelau ymgysylltu gwleidyddol yng Nghymru.

Mae nifer yr ymwelwyr yn cynyddu bob blwyddyn yn ogystal â nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar yr Ystâd. Er mwyn sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cynnal yn y ffordd orau bosibl, ym mis Mawrth 2016 comisiynwyd a chychwynwyd adolygiad o sut y darperir digwyddiadau. Nod yr adolygiad yw sicrhau gwasanaethau effeithlon a chyson i gwsmeriaid ar draws yr holl ddigwyddiadau ac osgoi dyblygu gwaith wrth drefnu digwyddiadau o'r fath. Bydd hyn yn sicrhau gwerth am arian ac yn cyflawni lefelau uwch o ymgysylltiad yn y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar draws yr ystâd. Bydd canfyddiad yr adolygiad yn cael ei gyflwyno'n gynnar yn 2017.

# 06.Adnoddau'r Cynulliad

## Gwasanaethau TGCh

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, targedwyd llawer iawn o adnoddau tuag at ddod â Gwasanaeth TGCh y Comisiwn yn wasanaeth mewnol. Mae llwyddiant y newid hwn wedi cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau arolwg o'r Aelodau a bellach mae'r gwasanaeth TGCh yn darparu'r gwerth gorau ar gyfer cyllideb y Comisiwn.

Gwnaed llawer iawn o waith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad i uwchraddio a diweddaru seilwaith a chymorth TGCh er mwyn sicrhau bod sylfaen hyblyg i adeiladu arni sy'n ein galluogi i fanteisio ar gyfleoedd yn y maes technoleg er budd yr Aelodau.

Uwchraddiwyd y cyfarpar yn y Siambr mewn pryd ar gyfer y Pumed Cynulliad. Mae'r cyfluniad gwell yn rhoi mwy o ofod desg i'r Aelodau, mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio TGCh symudol, mae'n arddangos gwybodaeth yn well ac yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu rhagor o welliannau graddol yn y dyfodol.


Y blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad yw sicrhau bod y seilwaith TGCh yn gallu gwrthsefyll methiant i raddau mwy byth ac yn cynnig mwy o hyblygrwydd drwy ddefnyddio gwasanaethau "Cwmwl". Bydd hyn yn helpu'r Aelodau i gael mynediad i'r adnoddau sydd eu hangen arnynt ble bynnag y bônt neu ba bynnag ddyfais y byddant yn ei defnyddio. Byddwn yn parhau i fanteisio ar dechnoleg newydd lle y gellir dangos bod hyn yn darparu mwy o effeithlonrwydd ac yn gwneud y sefydliad yn fwy effeithiol. Er enghraifft, rydym yn bwriadu uwchraddio systemau arwyddion a darlledu ar draws yr ystâd er mwyn manteisio ar dechnolegau darlledu modern.

Mae'r gyllideb ar gyfer TGCh yn gwneud darpariaeth ar gyfer 42 aelod o staff i gefnogi Darlledu, Seilwaith a Gweithrediadau TGCh, Rheoli Cymwysiadau, Darparu Gwasanaeth a Phrosiectau TGCh. Mae camau wedi'u cymryd i sicrhau fod gennym y sgiliau cywir ar gyfer y Pumed Cynulliad; er enghraifft, cafodd Peiriannydd Apple ei recriwtio'n ddiweddar i wella'r cymorth a roddir i Aelodau sy'n dewis defnyddio cynhyrchion Apple.

Ar y cyfan, mae'r gyllideb ar gyfer y gwasanaeth wedi lleihau 12% o gymharu â chost cyfnodau brig y gwasanaeth ar gontract allanol gan ryddhau adnoddau i'w buddsoddi yn natblygiad y gwasanaeth hwn a gwasanaethau eraill.

Mae Graff 1 yn dangos y gostyngiad yn y gyllideb weithredol ers i'r gwasanaeth hwn ddod yn wasanaeth mewnol o gost frig o £3.618 miliwn yn 2013-14 i £1.747 miliwn yn 2016-17.

**Graff 1: Cyllideb Weithredol TGCh**




**Tabl 2: Costau TGCh**

| | 2016-17 Cyllideb £000 | 2017-18 Cyllideb £000 | 2018-19 Cyllideb £000 | 2019-20 Cyllideb £000 | 2020-21 Cyllideb £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth teleffoni | £528 | £588 | £563 | £563 | £563 |
| Darlledu | £490 | £505 | £496 | £490 | £490 |
| Trwydded a Chynnal a Chadw | £774 | £681 | £681 | £681 | £681 |
| Refeniw a Phrynu defnyddiau traul | £130 | £250 | £250 | £250 | £250 |

## Rheoli a Diogelu'r Ystâd

Mae ystâd y Cynulliad yn darparu ased werthfawr i gefnogi amcanion y Comisiwn i ymgysylltu'n effeithiol a hyrwyddo gwaith y Cynulliad.

Yn dilyn y buddsoddiadau a'r gwelliannau i'r ystâd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, byddwn yn parhau i ddefnyddio ein rhaglen waith dreigl sydd wedi'i blaenoriaethu i adnewyddu eitemau ar sail cylch bywyd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ystâd yn gweithredu'n effeithiol er mwyn cefnogi busnes y Cynulliad ac yn adlewyrchu statws a phroffesiynoldeb y Cynulliad i bawb sy'n gweithio yn ein hadeiladau ac yn ymweld â hwy. Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i sicrhau bod eitemau sy'n cael eu hadnewyddu ar sail cylch bywyd yn darparu gwerth ychwanegol ac arbedion, er enghraifft drwy eu hadnewyddu gydag eitemau a dyfeisiadau mwy effeithlon a chynaliadwy. Byddwn yn cydweithio gyda gwasanaethau eraill i nodi meysydd lle y gallwn gyflawni canlyniadau ar y cyd, drwy adolygu systemau a nodi atebion sy'n darparu manteision ychwanegol, er enghraifft goleuadau mwy cynaliadwy sydd hefyd yn gallu cefnogi ein nodau ymgysylltu drwy gynyddu eu swyddogaethau.


Bydd mentrau a phrosiectau cynaliadwyedd effeithiol i gefnogi ein Map Lleihau Carbon hyd 2021 hefyd yn cael eu hadolygu a'u blaenoriaethu er mwyn cefnogi ein hymdrech barhaus i leihau ein defnydd o ynni, gwastraff a dŵr a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn esiampl yn y sector cyhoeddus.

Drwy gyfleoedd aildendro contractau wedi'u cynllunio, byddwn yn ceisio adolygu manylebau a gwasanaethau i nodi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion eraill, gan sicrhau bod ein partneriaid sydd â chontractau yn parhau i gyrraedd safonau rhagorol o ran perfformiad a darparu gwasanaethau. Gan weithio o fewn rheoliadau caffael, byddwn yn annog cyfleoedd o fewn ein contractau ac fel rhan ohonynt i gefnogi ein hymrwymiadau i weithio gyda chyflenwyr o Gymru a busnesau bach a chanolig.

I gefnogi'r gofynion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y Pumed Cynulliad, byddwn yn adolygu ein cyfleusterau o ran anghenion busnes ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau ac opsiynau ar gyfer defnydd mwy hyblyg o swyddfeydd a mannau ar gyfer cynnal cyfarfodydd.

Byddwn yn ymchwilio i opsiynau i sicrhau arbedion drwy gyflawni ein nodau hirdymor mewn perthynas â pherchnogaeth Tŷ Hywel.

**Graff 2: Rheoli Ystadau a Chyfleusterau; Cyllideb Weithredol 2017-18**



Bydd y Pumed Cynulliad yn parhau i wynebu nifer o heriau diogelwch. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod y gwasanaethau diogelwch yn parhau i fod yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar sicrhau ymateb prydlon a phriodol i risgiau sy'n dod i'r amlwg yn sgil digwyddiadau byd-eang. Er bod terfysgaeth ryngwladol yn parhau i fod yn fygythiad i'n diogelwch, ni allwn anwybyddu'r peryglon gan eraill a allai fod yn dymuno tanseilio democratiaeth, neu gyflawni mathau eraill o weithgareddau troseddol.

Mae'r tîm Diogelwch yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu ac asiantaethau eraill gan adolygu cudd-wybodaeth a rhoi mesurau rheoli ar waith i liniaru risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mewn ymateb i'r bygythiadau yn sgil terfysgaeth ryngwladol, cytunodd y Comisiwn i ddefnyddio swyddogion arfog, a fydd yn y pen draw yn arwain at gynnydd yn niferoedd swyddogion yr heddlu. Yng ngoleuni hyn mae adolygiad cynhwysfawr o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Heddlu yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn cael y gwerth gorau am arian.

Mae'r Comisiwn wedi buddsoddi'n drwm mewn mesurau diogelwch amddiffynnol ac mae cyfarpar newydd wedi'i gyflwyno, neu yn yr arfaeth, a fydd yn gwella diogelwch y Cynulliad yn sylweddol. Ategir y mesurau hyn gan swyddogion diogelwch mwy proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n dda sy'n darparu mwy o sicrwydd yn yr amgylchedd busnes.  Mae camau'n cael eu cymryd i ddatblygu ein gwasanaethau diogelwch ymhellach er mwyn gwella ymhellach ddiogelwch yr Aelodau, staff ac ymwelwyr ar ein hystâd. Mae'r tîm diogelwch hefyd yn gweithio gyda'r Aelodau i adolygu trefniadau diogelwch mewn swyddfeydd etholaethol.

Mae adolygiad llawn o'r strwythur staff diogelwch yn cael ei gynnal mewn ymateb i wythnos fusnes hwy, y gofyniad i gynnal rhagor o Bwyllgorau a nifer cynyddol o ddigwyddiadau. Mae'r adolygiad hefyd yn ceisio gwarantu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i ffwrdd o ddyletswyddau rheng flaen. Disgwylir i'r adolygiad gyhoeddi adroddiad ynghyd ag argymhellion yn ystod hydref 2016.

## Buddsoddi yn ein pobl

Mae gennym ymrwymiad parhaus i feithrin gallu'r sefydliad, yn erbyn cefndir o ofynion newidiol, er mwyn sicrhau bod gan y Cynulliad bobl fedrus, frwdfrydig yn y swyddi cywir, sy'n barod i ddarparu gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf.

Mae ein harolwg staff diweddaraf, wedi'i feincnodi yn erbyn cymaryddion y gwasanaeth sifil, yn parhau i ddangos darlun hynod gadarnhaol, gyda lefelau uchel parhaus o ymgysylltu gan gyflogeion, ymrwymiad gwirioneddol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a dangosyddion clir ei fod yn lle gwych i weithio ynddo. Dangosir hyn hefyd drwy nifer fawr o wobrau ac anrhydeddau allanol, gan gynnwys gwobr Aur newydd Buddsoddwyr mewn Pobl, dod yn drydydd yn y DU ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall a hefyd cael ein cydnabod fel y Cyflogwr sector cyhoeddus gorau yng Nghymru ar gyfer staff LHDT am y drydedd flwyddyn yn olynol.  Mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur, byddwn yn gweithio i sicrhau lefelau uchel a pharhaus o ymgysylltu ac ymrwymiad gan y staff.

Nododd ein gwaith cynllunio capasiti yn ystod rhan olaf y Pedwerydd Cynulliad feysydd i fuddsoddi ynddynt, yn enwedig y rhaglen ddeddfwriaeth sy'n ehangu, a pharatoi ar gyfer effaith Bil Cymru. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn gan ganolbwyntio'n benodol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae tair prif gyfarwyddiaeth o fewn y Comisiwn:

– Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad gyda 134 o swyddi sy'n cwmpasu Pwyllgorau, Ymchwil, Cyfathrebu a Thrawsnewid Strategol, gan ddarparu cymorth seneddol arbenigol i'r Aelodau er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon.

– Gwasanaethau'r Comisiwn gyda 77 o swyddi sy'n darparu gwasanaethau ysgrifenyddol a chymorth i'r Llywydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr, Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Mae’r tîm Cymorth Busnes i Aelodau a’r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi hefyd yn rhan o'r gyfarwyddiaeth hon.

– Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau yn darparu'r gefnogaeth gorfforaethol i'r amgylchedd busnes, gan gynnwys gwasanaethau Diogelwch, Rheoli Ystadau a Chyfleusterau, TGCh, Adnoddau Dynol, Llywodraethu ac Archwilio a Chyswllt Cyntaf.  Mae gan y gyfarwyddiaeth ddarpariaeth ar gyfer 205 o swyddi o fewn y gyllideb.

– Mae gan dîm y Gwasanaeth Cyfreithiol 15 o swyddi ac mae gan y tîm Cyllid 15 swydd.

# GWEITHIO I'R CYNULLIAD

## RHWYDWEITHIAU CYDRADDOLDEB YN Y GWEITHLE

Rhwydwaith Anabledd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**EMBRACE**

Disability Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith LGBT Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**OUT-NAW**

LGBT Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**REACH**

Race, Ethnicity And Cultural Heritage Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith Menywod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**INSPIRE**

Women's Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith Gofalwyr a Rhieni sy'n Gweithio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**TEULU**

Working Parent and Carer Network of the National Assembly for Wales

## GWOBRAU

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Top Employers for Working Families

LOUDER THAN WORDS

Stonewall 100 CYFLOGWR GORAU TOP 100 EMPLOYERS CYMRU 2016

we're supporting AGE POSI+IVE

Autism Access Award

The National Autistic Society Cymru

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

Gwobr Ystyriol o Awtistiaeth

# 07.Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

Fel sefydliad sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus, rhaid i'r Comisiwn ddangos yn gyson ei fod yn defnyddio ei adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol a'i fod yn gweithredu prosesau llywodraethu a sicrwydd effeithiol. Ar yr un pryd, mae'n allweddol ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i Aelodau'r Cynulliad er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl etholedig i graffu'n effeithiol ar Lywodraeth Cymru, creu cyfreithiau da ar gyfer Cymru a chynrychioli pobl Cymru.

Er mwn rhoi sicrwydd ein bod yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac effeithiol yn ein gweithrediadau dyddiol a hefyd pan fyddwn yn cyflwyno newidiadau i'r sefydliad. Rydym yn:

- herio ein hunain a'n cyflenwyr yn barhaus er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a mesur gwelliant ac adrodd arno;
- darparu tystiolaeth glir ein bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a bod gennym hawl i ddefnyddio'r gyllideb a ddyrannwyd inni yn y ffordd a wnawn;
- sicrhau bod popeth a wnawn yn cyd-fynd â Strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, eu bod yn addas at y diben ac yn deillio o asesiad o'r costau o gymharu â'r manteision;
- sicrhau ein bod yn destun prosesau craffu mewnol ac allanol a bod yn glir ac yn agored am ein cynlluniau a'n llwyddiannau;
- cofnodi enghreifftiau o arferion da, mynd at wraidd yr hyn sy'n eu gwneud yn arferion da a sicrhau eu bod yn cael eu mabwysiadu. Yn yr un modd, lle nad yw pethau'n mynd yn dda, rydym yn dangos yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu a'i wneud, er mwyn atal hynny rhag digwydd eto.

# **DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETH** 2015 – 2016

**72%**

LEFEL YR YMGYSYLLTIAD STAFF YN ÔL YR AROLWG STAFF BLYNYDDOL
(59% YW CANOLRIF Y GWASANAETH SIFIL)

**7.6%**

LLEIHAD MEWN ALLYRIADAU
(TARGED BLYNYDDOL O 6%)

**0.13%**

TANWARIANT CYLLIDEB
(TARGED O <1%)

**450**

O STAFF AMSER LLAWN A DIDUEDD YN WLEIDYDDOL YN GWEITHIO I GOMISIWN Y CYNULLIAD

**163,158**

O YMWELWYR Â'R SENEDD A PIERHEAD

**12%**

GOSTYNGIAD MEWN COSTAU GWASANAETHAU TGCHS

# 08.Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Y Bwrdd Taliadau yw'r corff annibynnol sy'n pennu cyflogau a thaliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff a'r system cymorth ariannol sydd ei hangen ar Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae'r system yn darparu cronfeydd i dalu'r treuliau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a / neu'n Ddeiliad Swydd, er enghraifft:

– rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;

– cyflogau a threuliau teithio eu staff cymorth;

– llety preswyl yng Nghaerdydd ar gyfer Aelodau y mae eu cartref gryn bellter i ffwrdd (mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol);

– cymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Ar ddechrau'r Cynulliad hwn, pennwyd cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad ar £64,000. Yn y blynyddoedd i ddod bydd yn cael ei uwchraddio yn unol ag enillion cyfartalog yng Nghymru fel mesurau yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE).

Telir cyflogau ychwanegol i Aelodau sy'n dal swyddi â chyfrifoldebau ychwanegol sylweddol, fel Gweinidog, y Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau.

Hefyd, o ddechrau'r Cynulliad hwn, gwnaeth y Bwrdd newidiadau sylweddol i gynllun pensiwn yr Aelodau, gan gynyddu'r cyfraniad a wneir gan yr Aelodau eu hunain a lleihau'r buddion a delir i dderbynwyr pensiwn, gan leihau'r gost gyffredinol i'r trethdalwr.

Mae'r Bwrdd Taliadau wedi neilltuo cyllid (hyd at £95,000 y flwyddyn fesul Aelod) i Aelodau gyflogi hyd at dri aelod o staff cyfwerth ag amser llawn i'w cefnogi ym mhob agwedd ar eu rôl. Yn ogystal, gall aelodau ddefnyddio lwfans o hyd at £17,184 er mwyn talu costau rhedeg swyddfa yn eu hetholaeth neu ranbarth.

Mae cyflogau'r Aelodau a'r mecanwaith ar gyfer unrhyw godiad bellach wedi'i osod ar gyfer gweddill y Cynulliad pum mlynedd hwn. Bydd y Bwrdd yn adolygu elfennau eraill ei Benderfyniad yn flynyddol neu'n gyfnodol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol. Adolygir y gyllideb Costau Swyddfa yn flynyddol a'i haddasu yn ôl yr angen. At ddiben darparu ffigurau dangosol, rydym wedi gwneud cais am godiad yn unol â chwyddiant yn unig.

Dangosir y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer y Pumed Cynulliad yn Nhabl 3

| Tabl 3 | 2016-17 £000 | 2017-18 £000 | 2018-19 £000 | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau ac argostau Aelodau'r Cynulliad** | £5,840 | £5,727 | £5,811 | £5,899 | £5,986 |
| **Cyflogau ac argostau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad** | £7,956 | £8,110 | £8,273 | £8,438 | £8,607 |
| **Lwfansau a Chostau Swyddfa** | £1,672 | £1,697 | £1,732 | £1,765 | £1,801 |
| **Cyfanswm** | **£15,468** | **£15,532** | **£15,816** | **£16,102** | **£16,394** |

# 09.Cwmpas y Gyllideb

Gosodir gyllideb hon yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Cynulliad Cenedlaethol i gynorthwyo i lunio'r Cynnig Cyllideb Blynyddol sy'n ofynnol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n cwmpasu gofynion Comisiwn y Cynulliad ar gyfer adnoddau ac arian parod ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018.

Bydd y Cynnig ynghylch y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion hynny yn lle cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru a'r swm o arian parod y bydd angen ei ryddhau o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net y rhagwelir y bydd angen i'r Comisiwn eu talu.

Amlinellir Cyllideb 2017-18 Comisiwn y Cynulliad sy'n ymdrin â'r gofynion hyn yn Nhabl 4

| Tabl 4 | 2017-18<br>£000 |
|---|---|
| **Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau o ran y Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**<br>**Adnoddau heblaw adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â'r Cynulliad**<br>**Darpariaeth Pensiwn yr Aelodau.**<br><br>**Y swm i'w gyflwyno o Gronfa Gyfunol Cymru i gwrdd â'r symiau a ragwelir i'w talu yn ystod y flwyddyn am y gwasanaethau a'r dibenion uchod llai'r derbyniadau disgwyliedig y gellir eu cadw a'r TAW y gellir ei adfer. £50,245** | £53,745 |
| **Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;**<br>- **o werthu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w defnyddio i brynu neu i gaffael asedau sefydlog**<br>**incwm rhenti, anrhegion, grantiau, sieciau, ail-godi tâl ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Cynulliad** | £300 |
| **Y swm i'w gyflwyno o Gronfa Gyfunol Cymru i gwrdd â'r symiau a ragwelir i'w talu yn ystod y flwyddyn am y gwasanaethau a'r dibenion uchod llai'r derbyniadau disgwyliedig y gellir eu cadw a'r TAW y gellir ei adfer. £50,245** | £50,245 |

# Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

| Tabl 5<br>Pennawd y Gyllideb | 2016-17 Cyllideb £000 | 2017-18 Cyllideb £000 | 2018-19 Cyllideb £000 | 2019-20 Cyllideb £000 | 2020-21 Cyllideb £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | £20,392 | £21,458 | £22,571 | £22,894 | £23,170 |
| Llety a chyfleusterau | £7,514 | £7,586 | £7,612 | £7,639 | £7,666 |
| Costau TGCh | £2,614 | £2,024 | £1,990 | £1,984 | £1,984 |
| Costau eraill (Tabl 6) | £2,132 | £2,150 | £2,119 | £2,160 | £2,282 |
| Hyfforddiant a datblygiad | £385 | £400 | £400 | £400 | £400 |
| Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth | £324 | £314 | £314 | £314 | £314 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | £156 | £158 | £158 | £158 | £158 |
| Costau Adnoddau Dynol eraill | £103 | £123 | £123 | £123 | £123 |
| **Cyfanswm y Gwariant Refeniw** | **£33,620** | **£34,213** | **£35,287** | **£35,672** | **£36,097** |
| | | | | | |
| **Incwm Refeniw** | | | | | |
| Gwerthiant - Siop y Cynulliad | (£15) | (£15) | (£15) | (£15) | (£15) |
| Llety - incwm rhent | (£50) | (£50) | (£50) | (£50) | (£50) |
| Incwm amrywiol | (£335) | (£235) | (£235) | (£235) | (£235) |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **(£400)** | **(£300)** | **(£300)** | **(£300)** | **(£300)** |
| | | | | | |
| Gwariant Cyfalaf - creu asedau sefydlog | £250 | £500 | £500 | £500 | £500 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **£33,470** | **£34,413** | **£35,487** | **£35,872** | **£36,297** |
| | | | | | |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | £15,468 | £15,532 | £15,816 | £16,102 | £16,394 |
| | | | | | |
| **Adnodd Net** | **£48,938** | **£49,945** | **£51,303** | **£51,974** | **£52,691** |
| | | | | | |
| ***Cyllidebau nad ydynt yn arian parod a rhai wedi'u clustnodi*** | | | | | |
| Gwariant yn ymwneud ag etholiad | £2,500 | £0 | £0 | £0 | £500 |
| Dibrisiant a thaliadau amorteiddio | £3,000 | £2,600 | £2,400 | £2,200 | £2,200 |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | £1,500 | £1,200 | £1,200 | £1,200 | £1,200 |
| Cyfanswm y cyllidebau nad ydynt yn arian parod a rhai wedi'u clustnodi | **£7,000** | **£3,800** | **£3,600** | **£3,400** | **£3,900** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | **£55,938** | **£53,745** | **£54,903** | **£55,374** | **£56,591** |

**Dadansoddiad o 'Costau eraill'**

| Tabl 6 | 2016-17 Cyllideb £000 | 2017-18 Cyllideb £000 | 2018-19 Cyllideb £000 | 2019-20 Cyllideb £000 | 2020-21 Cyllideb £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddol eraill | £1,218 | £1,155 | £1,124 | £1,165 | £1,287 |
| Gwasanaethau iaith ar gontractau allanol | £263 | £263 | £263 | £263 | £263 |
| Argraffu, deunydd ysgrifennu a phostio | £227 | £270 | £270 | £270 | £270 |
| Yswiriant a chyngor arbenigol | £110 | £115 | £115 | £115 | £115 |
| Cyhoeddiadau | £110 | £120 | £120 | £120 | £120 |
| Cyfrifyddu a gwasanaethau ariannol | £23 | £44 | £44 | £44 | £44 |
| Archwilio | £90 | £90 | £90 | £90 | £90 |
| Cynghorwyr Pwyllgorau | £54 | £54 | £54 | £54 | £54 |
| Lletygarwch | £37 | £39 | £39 | £39 | £39 |

**Mae Tabl 7 yn cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru;**

| Tabl 7 | 2017-18 £000 |
|---|---|
| **Gofyniad refeniw net yr Aelodau** | £15,532 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | £36,513 |
| Gofyniad cyfalaf net | £500 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | £1,200 |
| **Is-gyfanswm** | **£53,745** |
| | |
| **Addasiadau;** | |
| Dibrisiad | (£2,600) |
| Symudiadau yn y darpariaethau | (£1,200) |
| Symudiadau mewn dyledwyr a chredydwyr | £300 |
| **Is-gyfanswm** | |
| | |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru | **£50,245** |

# Atodiad 2: Geirfa

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

Categoreiddio gwariant sydd wedi'i gadw ar gyfer eitemau llai rhagweladwy ac eitemau y mae modd eu rheoli. Dim ond at y diben y cafodd ei aseinio y mae modd ei ddyrannu.

**Cyllideb**

Mae'n pennu'r adnoddau a'r arian parod y bwriedir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol ganlynol a ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd ariannol dilynol.

**Cyfalaf**

Gwariant sydd yn gyffredinol yn arwain at ased sefydlog (e.e. adeilad, cyfarpar neu dir) sydd wedi'i fwriadu i fod o fudd i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol, neu wariant sy'n cynyddu capasiti, darbodaeth, effeithlonrwydd neu hyd oes ased sefydlog sy'n bodoli eisoes.

**Dibrisiad**

Mesur o ddefnydd, traul neu leihad ym mywyd defnyddiol ased sefydlog.

**Asedau Sefydlog**

Eitemau sy'n cael eu prynu gyda bywyd disgwyliedig sy'n fwy na blwyddyn er budd economaidd y busnes megis tir, adeiladau a chyfarpar.

**Deddf Llywodraeth Cymru 2006**

Ddeddf Seneddol y Deyrnas Unedig sy'n diwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn caniatáu i ragor o bwerau gael eu rhoi iddo'n haws. Mae'r Ddeddf yn creu system lywodraethu gyda gweithrediaeth ar wahân sy'n deillio o'r ddeddfwrfa ac yn atebol iddi.

**Darpariaethau**

Darpariaeth yw rhwymedigaeth lle mae'r amseriad neu'r maint yn ansicr. Mae cost yn cael ei chydnabod yng Nghyfrif Adnoddau'r Comisiwn pan fydd gennym rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan fydd yn debygol y bydd angen trosglwyddo manteision economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth hon, a phan fydd modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

**Termau real**

Gwerth y gwariant wedi'i addasu i ystyried chwyddiant cyffredinol mewn prisiau. Mae'n galluogi cymharu gwariant ar draws blynyddoedd heb yr afluniad a achosir gan newidiadau mewn prisiau.

**Costau Refeniw / Rhedeg**

Gwariant presennol sy'n cwmpasu costau rhedeg o ddydd i ddydd megis cyflogau staff a phrynu nwyddau traul a gwasanaethau.

**Gwerth am Arian**

Y broses ar gyfer gwerthuso ac asesu prosiectau a phrosesau sefydliad yn systematig i roi hyder ynghylch addasrwydd, effeithiolrwydd, darbodusrwydd, ansawdd, gwerth ac osgoi camgymeriadau a gwastraff arall, ar gyfer y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

### Bloc Cymru

Y grant bloc o arian, a gyfrifir gan ddefnyddio Fformiwla Barnett, y pleidleisiwyd arno gan y Senedd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer cyllid sy'n dod i Gymru.

### Cronfa Gyfunol Cymru

Wedi'i chreu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cyfrif banc niwtral yw hwn a gedwir gan y Tâl-feistr Cyffredinol. Y cyfrif y mae'r arian a bleidleisiwyd  arno gan Senedd y DU i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael ei dalu iddo.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon